

Amgueddfa Cymru



Paratoi ar gyfer Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang



PECYN FFYNONELLAU



Gallwn ddysgu llawer iawn am tlodi ac anghydraddoldeb drwy astudio hanes Cymru.

Astudiwch y ffynonellau hyn ynghylch y gwrthwynebiad i dollffyrdd a thollbyrth yng ngorllewin Cymru yn y 19eg ganrif ac yn India fodern. Bydd y ffynonellau yn eich helpu i ddeall pam yr adeiladwyd tollffyrdd a pham y bu gwrthwynebiad iddynt. Bydd y ffynonellau yn eich helpu i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng tlodi, anghydraddoldeb a thollffyrdd.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i ymweld â Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ger Caerdydd. Gallwch hefyd ymchwilio ar wefannau fel Gwefan Hanes Cymru y BBC sydd â ffynonellau ynglŷn â Therfysgoedd Rebeca. Gallwch ganfod mwy ar wefan yr Archifau Gwladol ac ar wefan hwb Llywodraeth Cymru.

Cyfieithiadau i'r Gymraeg, yn hytrach na'r gwreiddiol, yw nifer o'r ffynonellau hyn.

PWNC: TLODI

FFOCWS: ANGHYDRADDOLDEB

GWRTHWYNEBU TOLLFFYRDD DDOE A HEDDIW

Nid yw protestiadau yn erbyn tollau a godir ar ffyrdd yn rhywbeth newydd. Yn y 19eg ganrif, protestiodd pobl yng ngorllewin Cymru yn erbyn tollau uchel a godwyd i deithio ar ffyrdd. Defnyddiodd rhai, a alwyd yn derfysgwyr Rebeca, fygythiadau a thrais, gan

ymosod ar dollbyrth a'u dinistrio hyd yn oed. Yn y 21ain ganrif, mae pobl yn parhau i brotestio yn erbyn tollau, weithiau'n heddychlon ac weithiau mewn modd treisgar, fel y gwnaethant yng ngorllewin Cymru yn y 1830au a 1840au.

GWRTHWYNEBIAD I'R TOLLFFYRDD YN Y 19EG GANRIF YNG NGHYMRU

FFYNHONNELL 1: Addaswyd o erthygl ynghylch Terfysgoedd Rebeca ar wefan adnoddau hanes ysgolion *NGfl Cymru* (2008)

Cwmniau oedd Ymddiriedolaethau Tyrpeg a allai godi tollau yn gyfnewid am wella ffyrdd. Ym 1839, roedd ffermwyr Cymru yn arbennig o ddig pan glywsant fod y dyn busnes o Loegr, Thomas Bullin, wedi cael caniatâd nid yn unig i godi tollau uchel ond i adeiladu rhagor o dollbyrth ar y ffyrdd. Byddai'r tollbyrth hynny yn codi'r gost o gludo'r calch roeddynt ei angen i wrteithio eu tir. Byddai tollau ychwanegol hefyd yn lleihau'r elw yr oeddent yn ei wneud wrth werthu eu cynnyrch yn y farchnad leol.

Ar noson 13 Mai, aeth nifer ohonynt i dolldy Efail-wen a'i roi ar dân. Rai wythnosau'n ddiweddarach cafodd y tollborth ym Maesgwyn ei ddinistrio ganddynt. Ar y ddau achlysur, roedd y ffermwyr yn gwisgo dillad menywod. Roedd llygad-dystion yn mynnu mai dyn tal, roedd y gweddill yn ei alw'n Rebeca, oedd yr arweinydd.

FFYNHONNELL 2: Darlun artist o ymosodiad gan derfysgwyr Rebeca,
The Illustrated London News (1839)



FFYNHONNELL 3: O erthygl gan newyddiadurwr yn ysgrifennu yn *The Carmarthen Journal*, papur newydd lleol a oedd yn cefnogi'r awdurdodau (16 Rhagfyr 1842)

Roedd arweinwyr y criw wedi newid eu pryd a'u gwedd drwy beintio eu hwynebaw yn amryw o liwiau, a gwisgo barfau o flew ceffyl, a dillad menywod. Stopiodd y criw bob porthmon a oedd yn teithio o gyfeiriad Caerfyrddin a chodi tâl arno, gan ddatgan eu bod wedi dinistrio'r holl dollbyrth.

FFYNHONNELL 4: Llythyr a anfonwyd at ficer Llangrannog yn Sir Geredigion a fu'n gorfodi anghydfurfwyr yn yr ardal i roi arian tuag at sefydlu ysgol eglwysig leol (19 Mehefin 1843)

Felly, os yw hyn yn wir, rhaid ichi ddychwelyd yr arian, pob ceiniog ohono. Os na wnewch hynny, byddaf fi, gyda 500 neu 600 o'm merched, yn dod i ymweld â chi, ac yn dinistrio eich eiddo hyd at bum gwaith ei werth, ac yn eich gwneud yn destun dirmyg a chywilydd drwy'r holl gymdogaeth. Fe wyddoch fy mod yn elyn i orthrwm. Yn gywir, Rebeca a'i merched

FFYNHONNELL 5: Darlun cyfoes (o'r 1840au) o'r enw '*Rebecca and her Daughters assembling to destroy a Toll Gate*'



(LLUN: LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU)

FFYNHONNELL 6: O wefan *The Glamorgan Family* (2003)

19 Mehefin 1843, rhuthrodd criw o 2,000 gyda Rebeca'n eu harwain i mewn i Gaerfyrddin ac ymunodd nifer o bobl dlawd y dref â nhw. Roedd yn ymddangos eu bod wedi perswadio'r ffermwyr i ymosod ar y tloty atgas...Gwnaethant ymosod ar y Meistr, dinistrio cynnwys y tloty a gorchymyn i'r trigolion adael yr adeilad. Roeddent yn paratoi i losgi'r tloty pan glywyd si bod milwyr yn agosáu...Cynhyrfodd y terfysgwyr wrth i'r milwyr agosáu, gan redeg i ffwrdd. Yn y rhuthr a ddigwyddodd wedyn, cipiwyd tua 60 o derfysgwyr gan y milwyr.

FFYNHONNELL 7: Tollborth Giât y De Aberystwyth ym 1842, bellach wedi'i ailadeiladu yn Sain Ffagan ac yn dangos y tollau uchel iawn a godwyd ar ffermwyr tlawd

LLUNIAU: ROSS THOMAS



CYFRADD Y TOLLAU I'W CODI YN Y TOLLBORTH HWN

	£	s	d
Ar gyfer pob Ceffyl neu Anifail arall sy'n tynnu unrhyw Goets neu Gerbyd o'r fath	0	0	6
Ar gyfer pob Ceffyl neu Anifail arall (ar wahân i Asynnod) sy'n tynnu unrhyw Wagen neu Gerbyd o'r fath	0	0	4
Ar gyfer pob Asyn sy'n tynnu Cert neu Gerbyd arall	0	0	2
Ar gyfer pob Ceffyl neu Ful, llwythog neu beidio, nad yw'n tynnu	0	0	11/2
Ar gyfer pob Asyn, llwythog neu beidio, nad yw'n tynnu	0	0	1/2
Ar gyfer pob Ceffyl neu anifail arall sy'n cario calch i'w ddefnyddio fel gwrtaith	0	0	2
Ar gyfer pob gyr o Ych, Buchod neu Wartheg, y swm o Ddeg Ceiniog fesul Ugain , ac felly'n gymesur ar gyfer nifer fwy neu lai			
Ar gyfer pob gyr o Loi, Moch, Defaid neu Wyn, y swm o Bum Ceiniog fesul Ugain , ac felly'n gymesur ar gyfer nifer fwy neu lai			

FFYNHONNELL 8: Llun o'r 19eg ganrif yn dangos amodau byw yn
Sir Ceredigion yng nghanol y ganrif



FFYNHONNELL 9: *The causes of the Rebecca Riots*, yr hanesydd Ross Thomas (2015)

Nid y tollbyrth oedd yr unig reswm dros Derfysgoedd Rebeca, ond dyma oedd y siom olaf i ffermwyr a llafurwyr tlawd Gorllewin Cymru. Gwir achos y terfysgoedd oedd tlodi a newyn yng nghefn gwlad Cymru ar ddiwedd y 1830au. Roedd cyflogau'n isel iawn ac roedd diweithdra'n uchel ymysg llafurwyr fferm. Gwnaeth cyfres o gynaeafau gwael iawn ar ddiwedd y 1830au y sefyllfa'n waeth.

Nid oedd fawr o gymorth ar gael ar gyfer y tlawd a'r di-waith. Sefydlodd Deddf Diwygio Cyfraith y Tlawd 1834 system newydd o gymorth ar gyfer y tlawd. O dan y system newydd, os nad oedd gennych ddigon o arian i gynnal eich hun, byddai'n rhaid ichi fynd i un o'r tlotai newydd lle'r oedd yr amgylchiadau yn waeth na rhai'r llafurwyr a oedd yn cael y cyflogau isaf. Rhannwyd teuluoedd; gwahanwyd gŵyr oddi wrth eu gwagedd, a chwiorodd oddi wrth eu brodyr.

Yn ogystal â llafurwyr fferm di-waith, ymatebodd ffermwyr tenant yn ddig iawn i'r system newydd. Yn y gorffennol, roeddent yn aml wedi rhoi bwyd a chymorth i'r tlawd, ond bellach roedd disgwyl iddynt dalu i adeiladu'r tlotai atgas. Roedd yn rhaid i'r ffermwyr dalu degymau hefyd (a oedd yn werth un rhan o ddeg o'u holl gynnyrch pob blwyddyn) i'r eglwys, i gefnogi'r ficer lleol. Ond roedd y rhan fwyaf o'r bobl a oedd yn mynd i wasanaethau

crefyddol yn mynd i gapeli anghydfurfiol yn hytrach nag eglwys Anglicanaidd, felly nid oeddent yn credu bod y trethi'n deg.

Yn y 1830au a'r 1840au, roedd yr holl bŵer gwleidyddol yng Ngorllewin Cymru yn nwylo'r uchelwyr (y tîrfeddianwyr) a nhw oedd yn rheoli'r llywodraeth leol. Roedd y rhan fwyaf o'r Ynadon Heddwch yn dirfeddianwyr lleol ac roeddent yn gyfrifol am y gyfraith a threfn, cyfreithiau'r tlawd a phroblemau tlodi. Yn llawer rhy aml, nid oeddent yn poeni fawr am y tlawd ac roeddent yn camddefnyddio'r system er eu lles eu hunain.

Roedd ffermwyr tlawd gorllewin Cymru eisoes yn wynebu tlodi, newyn, a rhenti a threthi uchel, a bellach roeddent yn wynebu tollau drud a chynnydd annheg, yn eu barn hwy, yn nifer y tollbyrth atgas.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yng Ngorllewin Cymru yn grefyddol iawn bryd hynny ac yn cymryd y Beibl o ddifrif. Pan ddaeth rhywun o hyd i'r adnod ganlynol yn y Beibl, roedd yn ymddangos i rai o'r ffermwyr bod Duw yn dweud wrthynt am wrthryfela yn erbyn y tollbyrth.

'Ac a fendithiasant Rebecah, ac a ddywedasant wrthi, Ein chwaer wyt, bydd di fil fyrddiwn; ac etifedded dy had borth ei gaseion.'

Ffynhonnell 10: Rhan o'r ddedfryd a roddwyd i ddau o derfysgwyr Rebeca gan y barnwr ym Mrawdlys Caerfyrddin (27 Rhagfyr 1843)

Dedfryd y llys yw eich bod chi John Jones yn cael eich alltudio y tu hwnt i'r moroedd am weddill eich bywyd naturiol, a'ch bod chi David Davies yn cael eich alltudio am ugain mlynedd.

FFYNHONNELL 11: Addaswyd o erthygl am y terfysgoedd, *Wales Online* (7 Mai, 2013)

Tua diwedd 1843, cynhaliodd y llywodraeth ymchwiliad i achosion y terfysgoedd. Lluniwyd adroddiad ar yr Ymddiriedolaeth Tyrpegau yn Ne Cymru, ac, o ganlyniad, pasiwyd y Ddeddf Tollbyrth ym 1844. Er na ddiddymwyd y tollbyrth, sefydlwyd mwy o reolaeth dros yr Ymddiriedolaethau Tollbyrth, a chyfyngwyd ar nifer y tollbyrth i ddim mwy nag un bob saith milltir.

GWRTHWYNEBIAD I DOLLFFYRDD YN INDIA FODERN

FFYNHONNELL 12: Adroddiad ym mhapur newydd y *Washington Post*, yn yr UDA (23 Mawrth 2014)

Ymgais India i adeiladu tollau modern ar ffyrdd yn wynebu trafferthion

Wrth i yrwyr aros ger man casglu tollau y tu allan i Mumbai un bore yn ddiweddar, cawsant eu syfrdanu gan olygfa ryfedd iawn. Roedd dwsinau o brotestwyr yn cario ffyn a cherrig wedi ymosod ar y tollfythau, gan falu ffenestri a dinistrio cyfrifiaduron a goleuadau y tu mewn iddynt. Llwyddodd gweithredwyr y tollfythau i ffoi.

Roedd yr ymosodiad yn rhan o brotest eang lle yr ymosodwyd ar ddwsinau o dollfythau a'u rhoi ar dân ledled talaith ddiwydiannol Maharashtra.

Mae tollfythau wedi dod yn dargedau annhebygol wrth i India geisio adeiladu mwy o ffyrdd gan ddefnyddio arian preifat. Mae dosbarth canol y wlad, sy'n tyfu, yn mynnu bod mwy o ffyrdd a phriffyrdd o safon yn cael eu hadeiladu. Ond nid yw nifer o bobl wedi derbyn yn llawn eto y syniad y bydd yn rhaid iddynt dalu amdanynt.

Mae'r tollffyrdd yn rhan o gynllun uchelgeisiol dros y 15 mlynedd diwethaf i ehangu system ffyrdd India yn sylweddol. Yn draddodiadol, y llywodraeth oedd yn adeiladu ffyrdd y wlad. Roeddent yn aml mewn cyftwr difrifol, ond roedd yn rhad ac am ddim i'w defnyddio. Fodd bynnag, wrth i'r economi arafu, mae angen i'r llywodraeth

genedlaethol, sy'n brin o arian, gael cwmnïau preifat i ariannu bron i hanner ei buddsoddiad llawn mewn adeiladu ffyrdd a phontydd, sef cynnydd o tua 30 y cant tan ddwy flynedd yn ôl.

Mae'r dinasyddion wedi lleisio amryw o gwynion ynghylch y tollffyrdd.

- Mae perchnogion ceir yn dweud eu bod eisoes yn talu trethi ffyrdd a cherbydau ac na ddylent gael eu gorfodi i dalu mwy
- Mae rhai preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu blingo gan y cwmnïau preifat sy'n adeiladu a gweithredu'r ffyrdd
- Ac mae rhai preswylwyr gwledig yn poeni na allant bellach gerdded gyda'u hanifeiliaid ar hyd priffyrdd prysur. Mae pentrefwyr yng ngwladwriaeth Rajasthan wedi gofyn am gilffyrdd ar wahân ar gyfer eu gwartheg e'u camelod.

Mae'r dicter ynghylch y tollfythau wedi arwain at drais o bryd i'w gilydd. Yn 2012, tynnodd Aelod Seneddol - sydd wedi'i eithrio rhag talu'r doll o dan gyfraith India - wn allan pan fynnodd gofalwr tollborth ei fod yn dangos ei gerdyn adnabod. Flwyddyn yn gynharach, saethwyd gofalwr yn farw gan ddyn ifanc di-waith a wrthododd dalu'r doll.

FFYNHONNELL 13: Adroddiad yn *The Times of India* (12 Ionawr 2014)

4 Tollfythau wedi'u fandaleiddio yn Ninas Kolhapur

Fandaleiddiwyd pedwar tollfwth yn ninas Kolhapur, ac roedd amheuaeth mai gweithredwyr Shiv Sena a oedd yn gyfrifol, wrth i'r anniddigrwydd yn erbyn casglu tollau ar naw o ffyrdd yn y ddinas arwain at drais. Mae Shiv Sena wedi trefnu protest yn Kolhapur fory yn erbyn y tollau. Dywedodd yr heddlu eu bod wedi cadw rhai o'r protestwyr a ddifrododd y bythau yn y ddalfa yn Kolhapur, sydd tua 400km o Mumbai. Nid oes sôn bod unrhyw un wedi'i anafu yn ystod yr ymosodiadau ar y bythau, meddai'r heddlu.

Fandaleiddiodd rhai protestwyr swyddfa IRB Infrastructure Developers, cwmni preifat, sy'n rheoli'r tollfythau ar naw o ffyrdd sy'n arwain i mewn i'r ddinas. Gan nad oedd arwydd bod y protestiadau'n tawelu, apeliodd Prif Weinidog Maharashtra, Prithviraj Chavan, i'r gwrthwynebwyr bwylllo. "Ni ddylid aflonyddu ar gyfraith a threfn. Rydym yn ceisio dod o hyd i ateb (i'r sefyllfa o ran y tollau)." Bu preswylwyr y ddinas yn protestio yn erbyn casglu'r tollau ar y naw ffordd dros y tair blynedd diwethaf. Dechreuodd tua dwsin o aelodau o'r pwyllgor gweithredu yn erbyn y tollbyrth streic newyn chwe diwrnod yn ôl, gan ddweud na fyddent yn rhoi'r gorau iddi nes bod y drefn casglu tollau'n dod i ben.

FFYNHONNELL 14: Adroddiad yn y *Mumbai Mirror* (18 Ionawr 2014)

Mae'r cynddaredd ynghylch y tollau sydd wedi arwain at ddinistrio tollbyrth yn seiliedig ar amheuaeth o dwyll. Dair blynedd yn ôl, datganodd Maharashtra Navanirma Sena, ar sail astudiaeth a wnaeth, fod gweithredwyr tollau yn blingo gyrwyr oherwydd eu bod wedi ennill mwy o arian na'r hyn yr oedd ei angen arnynt i dalu'r costau. At hynny, roedd y gwaith cynnal a chadw ar y ffyrdd yn wael iawn hefyd. O'r herwydd, roeddent yn mynnu y dylai'r tollfythau gau ac y dylid rhoi'r gorau i gasglu arian.

Ers i'r casgliadau ddechrau yn 2004, dros yr wyth mlynedd, byddai'r swm a gasglwyd 500 y cant yn fwy na'r gost o adeiladu'r briffordd. Dyna oedd sail eu gofynion...cael gwared ar y tollau. Yna, lledaenodd y cynddaredd ynghylch y tollau i ffyrdd eraill a phleidiau gwleidyddol eraill.

FFYNHONNELL 15: Detholiad o adroddiad yn y *Deccan Chronicle* (20 Ebrill 2015)

Pentrefwyr yn rhedeg reiat ac yn dinistrio tollfythau yn Hoskote

Achosodd grŵp o dros 300 o bentrefwyr derfysg gan fandaleiddio tollfythau a llosgi un ohonynt yn Budigere ar Briffordd Genedlaethol 4 yn Hoskote fore Sul yn sgil honiad bod preswlydd lleol wedi cael ei lusgo i mewn i dollfwth a'i ddyrnu gan gyflogeion y man casglu tollau. Rhuthrodd heddlu gwledig Bengaluru i'r lleoliad a mynd ati i wasgaru'r criw cynddeiriog, wrth i gyflogeion y man casglu tollau ddianc oddi yno.

Cyrhaeddodd y dioddefwr, Manjunath (20), a'i deulu y tollfwth am tua 9.45am. Mae gan y teulu docyn lleol i ddefnyddio'r man casglu tollau bob dydd, ond nid oeddent wedi mynd ag ef ddydd Sul.

Trodd y sefyllfa'n gas pan gafodd Manjunath a'i dad eu cam-drin a'u bygwth gan gyflogeion y man casglu tollau. Yn ôl pob sôn, roedd Manjunath yn gandryll a tharodd un o'r cyflogeion, ac, yn sgil hynny, llusgodd cyflogeion eraill Manjunath i mewn i un o'r bythau ac ymosod arno gyda darn o bren.

Hysbysodd aelodau o'r teulu, a oedd wedi dychryn, eu perthnasau a'u ffrindiau yn eu pentref. Cyn bo hir, cyrhaeddodd torf o dros 300 o bentrefwyr gan ddechrau creu terfysg. Roeddent yn rhwystro'r traffig ar Briffordd Genedlaethol 4, yn tarfu ar y traffig ac yn fandaleiddio 11 o dollfythau.

FFYNHONNELL 16: Wedi'i addasu o adroddiad yn yr *Indian Express* (4 Chwefror 2015)

Maharashtra oedd un o'r ychydig daleithiau i breifateiddio'r gwaith o adeiladu ffyrdd. Mae'r llywodraeth yn dweud bod angen gwirioneddol am ffyrdd ond nad oes ganddi ddigon o arian i'w hadeiladu.

Pam mae gwrthwynebiad i'r doll yn y wladwriaeth?

- Mae'r llywodraeth a chwmnïau busnes sy'n cael contractau i redeg y tollbyrth yn gyfrinachgar ynghylch faint o arian y gellir ei godi ac am ba hyd y gall y cwmnïau gasglu tollau cyn trosglwyddo'r ffyrdd yn ôl i'r llywodraeth
- Y diffyg gwaith cynnal a chadw ar y ffyrdd a'r priffyrdd gan y cwmnïau
- Cyfleusterau gwael ar y ffyrdd, yn enwedig toiledau glan, manau parcio, gwasanaethau ambiwlans
- Cyhuddiadau o lygredd, gan gynnwys ffafrau yn cael eu gwneud i ddynion busnes sy'n casglu tollau'n breifat
- Ffyrdd ond yn cael eu gwella pan fyddant yn rhad i'w hadeiladu a lle y gall cwmnïau wneud elw, ac nid lle y mae eu hangen fwyaf
- Mae materion amgylcheddol mewn perthynas â'r ffyrdd, fel dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt a'r peryglon o gael anifeiliaid gwyllt yn croesi ffyrdd gwledig

FFYNHONNELL 17: Adroddiad yn yr *Indian Express* (9 Hydref 2014)

Mae'r gwaith o adeiladu'r man casglu tollau arfaethedig ar y briffordd Sion-Panvel yn wynebu rhwystr arall. Gorchmynnodd y Tribiwnlys Gwyrdd Cenedlaethol (NGT) yn ddiweddar y dylid penodi barnwr i ymweld â'r ardal lle bydd y tollborth arfaethedig yn cael ei adeiladu ac i archwilio'r gwaith adeiladu, a nodi a yw'r broses yn peri unrhyw niwed i'r mangrofau yn yr ardal.

Gorchmynnodd y tribiwnlys na ddylid gwneud unrhyw waith ar y tollborth yn y cyfamser...Roedd y cynnig ar gyfer y prosiect yn cynnwys ffordd 18.8km sy'n mynd drwy ardal Parth Rheoleiddio Arfordirol (CRZ). Rhoddwyd y gorau i'r cynnig cynharach ar gyfer y tollborth oherwydd bod y prosiect yn cynnwys cael gwared ar fangrofau a chyftwynwyd cynnig gerbron uchel lys Bombay yn erbyn y prosiect.

FFYNHONNELL 18: Adroddiad yn *The Times of India* (22 Chwefror 2014)

MUMBAI: Yn sgil ymweliad ag arfordir Mira-Bhayander yn gynharach yr wythnos hon, yn ôl pob tebyg, canfu amgylcheddwyr a swyddogion o'r adran fforestydd fod mangrofau'n cael eu dinistrio ar raddfa eang. Cynhaliwyd yr ymweliad safle ar gais yr uchel lys. Mae gorchymyn uchel lys Bombay a chyfreithiau eraill yn gwahardd gweithgareddau adeiladu o fewn 50 metr o fangrofau ac yn gwahardd adeiladu ar y Parth Rheoleiddio Arfordirol-I. Mae cyfreithiau Rheolau Gwlypdiroedd India (2010) yn atal adennill mangrofau.